

# **Materion cydraddoldeb ym maes addysg:**

**Adnodd i helpu ysgolion ac  
awdurdodau lleol i baratoi  
cynlluniau strategol ac  
amcanion ar gyfer  
cydraddoldeb**



## Cyflwyniad

Mae llywodraethau'r DG a Chymru wedi llunio Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 a'r dyletswyddau penodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn ôl y modd mae'r Cenhedloedd Unedig wedi pennau hawliau dynol, ac mae Cymal 28 Cytundeb y Cenhedloedd Unedig am Hawliau Plant yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y llawlyfr hwn am ei fod yn 'cydnabod hawl plant i addysg [...] trwy gyfleoedd cyfartal'.

Mae gofyn i bob awdurdod lleol ac ysgol baratoi a chyhoeddi cynllun strategol ac amcanion ar gyfer cydraddoldeb erbyn **2<sup>il</sup> Ebrill 2012**. Diben yr amcanion a'r cynlluniau yw gwella byd unigolion a chymunedau mewn modd mesuradwy.

### **Strwythur cynlluniau strategol ar gyfer cydraddoldeb**

Dyma ganllawiau'r Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol am yr hyn sydd i'w gynnwys yn y cynlluniau strategol:

[http://www.equalityhumanrights.com/uploaded\\_files/Wales/PSED\\_Wales\\_docs/2\\_equality\\_objectives\\_and\\_seps\\_bk.doc](http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/Wales/PSED_Wales_docs/2_equality_objectives_and_seps_bk.doc)

Rhaid cynnwys yn y cynlluniau amcanion cydraddoldeb a dangos beth y bydd yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn ei wneud i'w cyflawni. Ar ben hynny, bydd rhaid dangos bod yr awdurdod lleol neu'r ysgol yn casglu gwybodaeth berthnasol ac yn dod i benderfyniadau yn ôl y dystiolaeth honno. Dylai'r cynllun amlinellu'r prosesau ar gyfer monitro'r cynnydd ac asesu effeithiau'r cynigion, hefyd.

Prif fyrddwn hyn o lawlyfr yw rhoi peth gwybodaeth a threfn y gall yr ysgolion ei defnyddio ar gyfer pennu amcanion. Nid templed ar gyfer cynllun strategol mo hwn. Bydd angen llunio'r trefniadau monitro yn ôl anghenion lleol. Mae peth gwybodaeth ddefnyddiol am asesu effeithiau yn nhrydedd ddogfen y pecyn, 'Risgiau, ynglŷn a chydraddoldeb, sy'n gyffredin i bawb ym maes addysg'.

### **Cyfraniad maes addysg ynglŷn a chynllun strategol yr awdurdod lleol**

Bydd eich awdurdod wrthi'n pennu amcanion a chynllun strategol corfforaethol ar gyfer cydraddoldeb. Bydd yr amcanion yn mynd i'r afael â materion hysbys (yn sgîl ymchwil ac ymgysylltu) sy'n ymwneud â gwasanaethau'r cyngor i gyd. Er enghraifft, rhywbeth mae'ch adran neu'ch ysgol wedi'i bennu'n flaenoriaeth neu rywbeth sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth neu'ch ysgol chi er ei fod wedi'i bennu gan rywun arall. Gallai'r cynllun ofyn i'ch adran neu'ch ysgol gyflawni gweithgareddau penodol. Y ffordd hawsaf o reoli'r rheiny yw eu cynnwys yng nghynllun eich gwasanaeth ynghyd â'ch gweithgareddau eraill.

Yn ogystal â chynllun strategol y cyngor ar gyfer cydraddoldeb, mae rhaid i bob ysgol baratoi cynllun o'r fath. Fe ddylai'r cynllun hwnnw gydb lethu â chynllun gwella neu ddatblygu'r ysgol cyhyd ag y bo modd. Cewch chi eu cyhoeddi nhw gyda'i gilydd neu, hyd yn oed, ar ffurf dogfen gyfun ar yr amod eich bod yn cydfynd â'r meini prawf perthnasol i gyd.

## **Amcanion cydraddoldeb yn y gwasanaethau**

Efallai y bydd pob adran addysg am bennu amcanion cydraddoldeb ym maes addysg a'u cynnwys nhw yng nghynllun ei gwasanaeth neu ddogfen gyffelyb, gan eu defnyddio i drefnu gweithgareddau'r adran a thrin a thrafod materion sydd wedi'u pennu yng nghynlluniau strategol yr ysgolion.

## **Cynlluniau strategol yn yr ysgolion**

Yn ôl y rheoliadau, rhaid i bob ysgol gydymffurfio â'r dyletswyddau penodol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag amcanion a chynlluniau strategol i ddibenion cydraddoldeb. Mae angen bod yn gymesur, hefyd. Felly, o ystyried gallu ac adnoddau pob ysgol, byddai'n ddoeth manteisio ar ymchwil a gweithgareddau ymgysylltu sydd wedi'u cynnal yn yr ardal neu'r rhanbarth yn ogystal â gwneud peth gwaith o'ch pen a'ch pastwn eich hun. Mae'n bur debygol y bydd nifer o amcanion yn gyffredin i gynllun strategol sawl ysgol. Mae'r drefn isod yn helpu i esbonio sut gallwch chi ddefnyddio gwybodaeth o amryw ffynonellau ar gyfer cynllun strategol.


Ar ôl archwilio ffynonellau gwybodaeth ac ymgysylltu, bydd ysgol mewn sefyllfa i bennu ei hamcanion. Wrth wneud hynny, rhaid cofio dau beth:

1. Er bod deddf newydd, dyw cydraddoldeb ddim yn faes newydd.
2. Nid pwnc ar wahân mo cydraddoldeb, ond rhan annatod o flaenoriaethau eraill.

Yn y drafodaeth isod, rydyn ni wedi ceisio dangos sut mae amcanion ar gyfer cydraddoldeb yn cydblethu â'r strategaethau a'r dulliau presennol ynglŷn â chynhwysiant, bwlio, rheoli ymddygiad, gwella cyrhaeddiad, llais y disgyblion, lles a chymorth i ddisgyblion. Dylai pob ysgol geisio ychwanegu at ei gwaith cyfredol a gofalu ei bod yn ystyried cwestiynau am gydraddoldeb a thegwch ym mhrif frwd ei gweithgareddau.

## Trefn ar gyfer pennu amcanion

Mae'r drefn syml isod yn ystyried amryw ofynion y dyletswyddau penodol.



### Ymchwil wladol

Mae ymchwil wladol yn bwysig am ei bod yn rhoi man cychwyn ar gyfer pennu anghydraddoldeb yn yr ysgol a darpariaeth ehangach maes addysg. Adrannau gwladol, ysgolheigion a mudiadau mwyaf y trydydd sector sy'n ymwneud ag ymchwil, yn bennaf, achos bod angen llawer o amser ac adnoddau i'w chynnal. Gan ei bod yn anodd i adrannau addysg ac ysgolion gael gafael ar ganlyniadau ymchwil Cymru a'r DG, yn aml, rydyn ni wedi canolbwyntio yn y llawlyfr hwn ar faterion allweddol a chasgliadau sydd wedi dod i'r amlwg mewn amrywiaeth o ymchwil wladol dros y blynyddoedd diwethaf hyn.

Defnyddion ni naw adroddiad pwysig i lunio'r crynodeb o anghydraddoldeb sydd yn y llawlyfr hwn: Adolygiad Teirblwydd y DG, 'Pa mor deg yw Prydain?'; Adolygiad Teirblwydd Cymru, 'Pa mor deg yw Cymru?'; Materion Cydraddoldeb yng Nghymru: Adolygiad Ymchwil; Arolwg o Fwlio yn Ysgolion Cymru; Gweithio er Dyfodol Tecach; Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus: Cau'r Bylchau; 'Pwy sy'n rheoli Cymru?'; Profiadau ac atebion pobl ifanc ynglŷn a bwlio sy'n ymwneud â'u cefndir: Adolygiad Ymchwil; Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru (adroddiad cyfatebol Cymru i'r un ar gyfer Panel Cydraddoldeb y DG) wedi'i lunio gan WISERD ar ran Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 1.

### Gwybodaeth leol

Mae ysgolion ac adrannau addysg lleol yn casglu swmp o wybodaeth megis cyfrifiad yr ysgolion, ystadegau am bresenoldeb a chyrhaeddiad a chofnodion ynglŷn â dysgwyr o oedolion. Mae llawer ohoni'n ddefnyddiol wrth ystyried a yw'r tueddiadau ledled y deyrnas yn cael eu hadlewyrchu yn eich ysgol chi, er enghraifft, ond mae angen ystyried materion lleol nad ydyn nhw wedi cael sylw yn yr ymchwil wladol, hefyd.

### **Gwybodaeth yn sgîl ymgysylltu**

Mae'r rheoliadau'n dweud bod angen cynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai ac iddyn nhw un o'r nodweddion sydd i'w diogelu neu ragor ac yn ymwneud â'r modd mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. Ystyr hyn yng nghydestun addysg yw siarad â phlant, pobl ifanc, rhieni, dysgwyr o oedolion, staff a llywodraethwyr. Mewn rhai amgylchiadau, rhaid cynnwys carfanau eraill megis cynrychiolwyr crefyddol neu fudiadau cymunedol sy'n ymwneud ag ysgol benodol neu'r addysg ehangach sydd yn yr ardal. Dylai ymgysylltu alluogi pobl o'r fath i fynegi eu blaenoriaethau a'u pryderon a dylai'r rheiny, yn eu tro, ddylanwadu ar amcanion cydraddoldeb a helpu i'w llunio. Mae'n bosibl y bydd rhai mudiadau ar waith ledled yr awdurdod, y rhanbarth neu hyd yn oed y wlad. Efallai y bydd yn fwy effeithlon hel gwybodaeth gyda nhw unwaith a lleadaenu'r wybodaeth honno ymhlith yr ysgolion yn hytrach na disgwyl i bob ysgol gysylltu â'r un mudiadau a gofyn yr un cwestiynau. Dylai pob awdurdod lleol ystyried helpu ysgolion yn eu gwaith ymgysylltu a lleadaenu'r canfyddiadau trwy ei drefn ei hun. Mae rhestr o fudiadau ac adnoddau sydd ar waith ledled y wlad yn Atodiad 2.

### **Meysydd nad yw'r llawlyfr hwn yn eu cwmpasu**

Mae modd nodi gwahaniaethau mawr rhwng lefelau presenoldeb, cyrhaeddiad a gwaharddiadau plant ac iddyn nhw hawl i gael prydau'n rhad ac am ddim yn yr ysgol a'r rhai sydd heb yr hawl honno, a rhwng plant sydd dan ofal a phlant nad ydyn nhw dan ofal. Gall ysgolion gyflawni amrywiaeth o orchwylion ynglŷn â charfanau o'r fath, ond nid dyma ganolbwynt y llawlyfr hwn achos ei fod yn ymwneud â'r nodweddion sydd i'w diogelu yn ôl Deddf 'Cydraddoldeb' 2010.

### **Sut mae defnyddio'r rhan ganlynol o'r llawlyfr**

1. Darllen trwy'r materion sydd wedi'u nodi yn yr ymchwil wladol a gofyn a ydyn nhw'n berthnasol i'ch ysgol/awdurdod lleol.
2. Ystyried yr ymchwil honno wrth ofyn pa wybodaeth leol y dylech chi ei chael i gyfeirio'ch penderfyniadau.
3. Ystyried pa faterion lleol sydd heb eu cynnwys yn yr ymchwil wladol.

## Ymchwil wladol a gweithgareddau cyfredol

Ffordd hwylus o drefnu'r wybodaeth a ddaw o ymchwil wladol yw cyflwyno'r materion a'r problemau sydd wedi'u nodi yn y wlad yng nghyd-destun yr hyn mae'r ysgolion, yr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

### Presenoldeb

Cynllun Gweithredu Ymddygiad a Phresenoldeb 2011-13 yw'r man cychwyn ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau yn yr ysgolion a'r awdurdodau lleol, gan gynnwys cryn dipyn o ddatblygu ynglŷn â dadansoddi'r presenoldeb yn well. Bydd canlyniadau'r dadansoddi'n cyfeirio proses neilltuo bandiau i'r ysgolion a bydd peth data yn yr wybodaeth y dylai pob ysgol ei chyhoeddi. Trwy wella'r dadansoddi, bydd modd nodi tueddiadau presenoldeb amryw garfanau ac iddyn nhw nodweddion i'w diogelu er mwyn cyfeirio proses pennu amcanion yr ysgol ar gyfer cydraddoldeb.

Dim ond hyn a hyn o ddata sydd ar gael fesul nodwedd ynglŷn â phresenoldeb. Er bod gwybodaeth am bresenoldeb bechgyn a merched yn cael ei chasglu'n aml, does dim dadansoddi o ran carfanau eraill, fel arfer. Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod canrannau'r merched a'r bechgyn sy'n absennol heb ganiatâd braidd yn debyg.<sup>1</sup> Mae rhai adroddiadau wedi'u llunio ynglŷn â phresenoldeb plant sipsiwn a phobl grwydrol o Wyddelod. Daeth pob un i'r casgliad bod y presenoldeb yn is ymhlith y plant hynny.<sup>2</sup> Nododd adroddiad i Lywodraeth Cymru yn 2006 fod cymunedau o'r fath yn tueddu i werthfawrogi addysg gynradd yn fwy nag addysg uwchradd.<sup>3</sup> Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu o'r enw 'Teithio at Ddyfodol Gwell: Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr' sy'n pennu nifer o amcanion ar gyfer y dyfodol megis hybu'r ymdeimlad o berthyn a derbyn, rhoi cymorth i ddisgyblion o sipsiwn a phobl grwydrol, lleddfu effaith negyddol canran presenoldeb sipsiwn a phobl grwydrol ar ysgolion ac adlewyrchu hanes y sipsiwn a'r bobl grwydrol yng nghwricwlwm yr ysgol.

<http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/equality/110928gypsytravelleracy.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Fforwm Cydlynwyr yr Addysg i Sipsiwn a Theithwyr sy'n dod â chydlynwyr y 22 awdurdod lleol at ei gilydd i ledaenu'r arferion gorau a gofalu eu bod yn gweithio yn ôl y polisiau diweddaraf. Gall aelodau'r fforwm fod yn gefn i ysgolion a hoffai wella sefyllfa plant sipsiwn a phobl grwydrol. Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion uwchradd yn yr adroddiad gyhoeddodd ESTYN yn ddiweddar:

<http://www.estyn.gov.uk/download/publication/201910.8/addysg-disgyblion-syn-sipsi-deithwyr-diweddariad-ar-y-ddarpariaeth-mewn-ysgolion-uwchradd-mehefin-2011/>

#### Ystyriaethau:

- **Presenoldeb gwael ymhlith plant sipsiwn a phobl grwydrol.**
- **Cyfle i wella'r wybodaeth am dueddiadau presenoldeb grwpiau eraill.**

## Gwaharddiadau

Mae Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r ysgolion yn gwybod erbyn hyn pa mor bwysig yw gofalu bod cydraddoldeb ynglŷn â gwahardd disgyblion. Y ddogfen allweddol am hynny yw 'Gwahardd rhag ysgolion ac unedau atgyfeirio disgyblion' (Chwefror 2008):

[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/Exclusion\\_from\\_Schools\\_and\\_Pupils?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/Exclusion_from_Schools_and_Pupils?skip=1&lang=cy)

Mae'r canllawiau'n cynnwys rhannau am drefniadau penodol ar gyfer gwahardd disgyblion ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig, disgyblion anabl a'r rhai o dras leiafrifol. Mae'r ddogfen wedi'i seilio ar Ddeddf 'Cydberthynas yr Hiliau' 2000 a Deddf 'Gwahaniaethu ar sail Anabledd' 1995 ond, bellach, mae Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 wedi cymryd eu lle ac yn gofyn i bob ysgol gael gwared ar anffafrio anghyfreithlon, hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cydberthynas dda o ran pob nodwedd sydd i'w diogelu – oedran, anableddau, newid rhyw, disgwyl baban/mamolaeth, tras (gan gynnwys tarddiad cenhedlig, lliw neu genedl), crefydd/cred, merched/dynion a thueddfryd rhywiol<sup>4</sup>. Mae gan ysgolion gyfle i ychwanegu at y gwaith da sydd wedi'i gyflawni er lles disgyblion ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig neu anableddau a'r rhai sydd o dras leiafrifol er mwyn gofalu na fydd yr un garfan yn cael cam yn y broses wahardd.

Mae tystiolaeth o astudiaethau gwladol yn awgrymu bod rhai carfanau'n fwy tebygol o gael eu gwahardd rhag yr ysgol. Mae crynodeb o rai astudiaethau gwladol isod, ond dylai awdurdodau ac ysgolion ddadansoddi tueddiadau lleol, hefyd.

Mae 'Pa mor deg yw Prydain?' a 'Pa mor deg yw Cymru?' fel ei gilydd yn trafod gwaharddiadau parhaol gan ddatgan bod 'tua 75% o'r rhai gafodd eu gwahardd yn barhaol [ym Mhrydain] yn fechgyn.<sup>5</sup> Gwelodd Pilgrim 2010<sup>6</sup> fod 'pedair gwaith gymaint o fechgyn yn cael eu gwahardd yn barhaol rhag yr ysgol [yng Nghymru] na merched' ac yn sôn am adroddiad arolygwyr ESTYN (2005c)<sup>7</sup> a nododd fod llawer o fechgyn yn unedau atgyfeirio'r disgyblion a bod llawer o'r rheiny wedi cael datganiad yn amhriodol.

Mae 'Pa mor deg yw Cymru?' yn ychwanegu 'bod 53% o waharddiadau parhaol yn ymwneud â disgyblion sydd ar gofrestr yr anghenion addysgol arbennig<sup>8</sup> a bod disgyblion nad ydyn nhw o gefndir croenwyn bum gwaith mwy tebygol o gael eu gwahardd na'r rhai croenwyn.'<sup>9</sup>

Mae Pilgrim 2010 wedi nodi bod plant sipsiwn a phobl grwydrol o Wyddelod yn cael eu hystyried yn rhan o'r boblogaeth groenwyn, yn aml. O ganlyniad, mae'n bosibl nad yw eu hanghenion yn cael eu nodi na'u diwallu.

### Ystyriaethau:

- **Bechgyn, y rhai ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig a'r rhai nad ydyn nhw o gefndir croenndu sy'n fwy tebygol o gael eu gwahardd.**
- **Mae plant sipsiwn a phobl grwydrol o Wyddelod heb eu nodi yn y prosesau monitro, yn aml.**

## Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

Mae llawer o waith prif ffrwd yr ysgolion a'r awdurdodau lleol i gynnwys a chynorthwyo disgyblion yn berthnasol i gydraddoldeb yn uniongyrchol.

**Canllawiau am Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion** sy'n cyfeirio llawer o'r gwaith hwnnw, er enghraifft:

- Cyflwyno fframwaith ar gyfer rhoi addysg ar gael i bawb a chael gwared ar feini tramgwydd sy'n rhwystro pobl rhag dysgu.
- Mabwysiadu'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' ar gyfer y rhai mae'u hanghenion yn fwy na rhai eu cyfoedion.
- Adlewyrchu polisiau diweddar megis trefniadau newydd yn sgîl Deddf 'Plant' 2004, Llwybrau Dysgu 14-19, Ymestyn Hawliau ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar.
- Dod â pholisiau presenoldeb, ymddygiad a bwlio ynghyd mewn proses gyfun ar gyfer yr ysgol i gyd.
- Canllawiau ehangach am gynorthwyo disgyblion ac arnyn nhw anghenion dysgu ychwanegol.
- Atodiadau penodol sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol megis rhestrau gwirio ynglŷn ag arferion cynhwysol.
- Codau newydd ar gyfer cofrestru presenoldeb – wedi'u hanfon i bob ysgol fis Mai 2004 yn wreiddiol.
- Cyflwyno targedau presenoldeb i bob ysgol gynradd, a hynny yn ôl pob math o absenoldeb yn hytrach na phob math o absenoldeb sydd heb ei ganiatáu.
- Pwyslais ar roi gwybodaeth well i ddisgyblion nad ydyn nhw'n cael eu haddysgu mewn ysgolion a'r rhai sy'n symud rhwng ysgolion.
- Rhan newydd am gyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ysgolion dros ddisgyblion mae'u rhieni'n eu haddysgu nhw gartref.
- Canllawiau newydd am gynnig addysg i rieni ifanc.
- Canllawiau am ofynion Deddf 'Ymddygiad Gwrthgymdeithasol' 2003 ynglŷn â gorchmynion rhianta (problemau ymddygiad) a chytundebau rhianta (presenoldeb gwael/problemau ymddygiad).

Mae rhagor o fanylion ar:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy>

Pan fo angen cymorth penodol ar ddisgybl sy'n profi anawsterau, gall cwnsler fod yn adnodd gwerthfawr. Dylai fod gan bob ysgol uwchradd raglen gwnsela fel y bydd cwnsler cymwysedig ar gael i bob disgybl. Yn ôl adroddiad a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar, 'Ffeithiau a Ffigurau am Gwnsela yn yr Ysgolion':

- Mae ychydig dros 60% o'r cwnsela wedi'i roi i ferched, ac ychydig o dan 40% yn ymwneud â bechgyn.
- Mae 97% o'r cwnsela wedi'i roi i bobl ifanc o gefndir croenwyn. Nododd eraill eu bod o dras gymysg neu darddiad cenhedlig gwahanol.



- Dywedodd ychydig dros hanner y bobl ifanc eu bod yn wahanrywiol. Fe ddywedodd 2.5% eu bod yn lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol. Mae gwybodaeth am ryw 40% o achosion ar goll, fodd bynnag.

Mae rhagor o fanylion ar:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/schoolcounselling/?skip=1&lang=cy>

## **Bwlio a pharch**

Mae'n bwysig i blant a phobl ifanc fod yn rhydd rhag bwlio. Ddylai'r ysgol ddim goddef unrhyw ymddygiad o'r fath. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r prifathro a'r corff llywodraethu sefydlu polisi atal pob math o fwlio. Trwy herio bwlio'n effeithiol, gall yr ysgol ofalu bod ei disgyblion yn ddiogel ac yn fodlon, dangos ei bod yn gweithio er eu lles a chyfleu neges nad yw'r cyfryw ymddygiad yn dderbyniol.

Mae ysgolion a chanolfannau dysgu'n defnyddio amryw ffyrdd o gwtogi ar fwlio, gan gydwethio'n agos â'r disgyblion a'r rhieni.

Ers cyhoeddi 'Parchu Eraill', y canllawiau am drechu bwlio yn 2003, mae pob ysgol wedi sefydlu polisi sy'n sôn am fwlio o achos tras ac anabledau ac yn cyfeirio at ofynion y gyfraith ynglŷn â chydberthynas yr hiliau a phobl anabl. Nod y canllawiau yw rhoi gwybodaeth am fwlio yn yr ysgolion, cynnig ffyrdd ymarferol o drin a thrafod achosion o fwlio ac esbonio rôl pawb sy'n ymwneud â rhwystro bwlio rhag digwydd ac ymdrin â'r achosion sy'n codi eu pennau.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/circular2303/?skip=1&lang=cy>

Yn sgîl cyflwyno Deddf 'Cydraddoldeb' 2010 sy'n ychwanegu at y carfanau mae rhaid eu diogelu, mae gofyn i ysgolion ystyried amrywiaeth ehangach o fwlio nag a oedd yn 2003.

I'ch helpu i ddiweddarau'ch polisiau yn erbyn bwlio, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd o'r enw 'Cymathu gwaith yn erbyn bwlio yn ysgolion Cymru', sy'n cynnwys:

- Bwlio plant ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig ac anabledau
- Bwlio merched a thrawsrywiad
- Bwlio ar y we
- Bwlio yn ôl tras, crefydd a diwylliant
- Bwlio hoywon

Rhagor o wybodaeth:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/111007respectingotherscy.pdf>

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/wellbeing/antibullying/?skip=1&lang=cy>

Mae tystiolaeth o astudiaethau gwladol yn awgrymu bod bwlio'n broblem ddifrifol i amrywiaeth o blant yng Nghymru. Dyma sylwadau'r Arolwg o Fwlio yn Ysgolion Cymru (Llywodraeth Cymru 2009):

'Mae gwahaniaeth yn y math o fwlio y cwynodd bechgyn a merched amdano mwyaf yn y rhan fwyaf o oedrannau dan sylw. Mae merched o bob oedran yn fwy tebygol o gwyno am fwlio anuniongyrchol – megis lledaenu sibrydion a chelwyddau – na'r bechgyn. Mae merched sydd ym mlwyddyn 6, 7, neu 10 yn fwy tebygol o gael eu bwlio trwy'r gwefannau cymdeithasu. Mae bechgyn ym mlwyddyn 4 neu 7 yn fwy tebygol o gwyno am fwlio corfforol ac mae achosion o fwlio bechgyn am eu bod yn hoyw yn fwy tebygol o godi ym mlwyddyn 6, 7 neu 10.<sup>10</sup>

Mae yn yr arolwg hefyd y tabl isod am fwlio yn ôl nodweddion:

<b>Tabl 1: Canran y disgyblion sydd wedi'u bwlio am amryw resymau yng Nghymru dros y ddau fis diwethaf</b>			
<b>Cwestiynau wedi'u gofyn yn yr arolwg</b>	<b>BI 6</b>	<b>BI 7</b>	<b>BI 10</b>
Ces i fy mwlio'n sarhaus am fy mod yn hoyw ni waeth a oedd hynny'n wir neu beidio.	22%	19%	9%
Ces i fy mwlio am fod anawsterau dysgu arnaf i	9%	7%	4%
Ces i fy mwlio o achos fy nhras neu darddiad cenhedlig.	3%	2%	3%

Mae astudiaeth drylwyr wedi'i chynnal ar ran Barnardos Caerdydd gan gyfweid 77 o blant a phobl ifanc. Mae'n rhoi rhagor o fanylion am fwlio pobl o achos eu tras, eu tueddfryd rhywiol a'u hanableddau nhw yn ogystal â nodi gwahaniaethau yn y bwlio mae bechgyn a merched yn ei brofi. Ar ben hynny, edrychodd ar faterion ehangach o ran y modd mae plant ac oedolion yn parchu ei gilydd, gan gynnwys perthynas disgyblion ag athrawon. Fe roes plentyn enghraifft o'r problemau allai godi:

'Mae athrawon yn camddefnyddio grym. Roedden nhw'n fy mwlio am fy iaith, fy nghefnidir a man fy ngeni. Rwy'n Somaliad o Gymru ond, yn ôl fy athro, alla i ddim bod yn Gymro ac mae hynny wedi fy nigio i... rwy'n falch o beth ydw i.'

Mae enghreifftiau eraill o ymchwil a ganolbwyntiodd ar sylwadau plant, megis Turner (2003) a'r Ddraig Ffynici (2007). Holodd Turner blant anabl a chlywed sylwadau amrywiol gan gynnwys pryderon am fwlio, cael eu trin a'u trafod yn wahanol i blant sydd heb anableddau a theimlad nad yw athrawon yn cymryd sylw o anghenion disgyblion nac yn eu deall nhw.

Tynnodd arolwg y Ddraig Ffynici (2007) at anfodlonrwydd o ran y modd mae'r ysgolion yn darparu ar gyfer anghenion crefyddol. Dywedodd 45% nad oedd y rheiny wedi'u cymryd i ystyriaeth. Mae gwisg ysgol a dillad crefyddol yn faes lle mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r canllawiau yn ddiweddar yn sgîl nifer o achosion cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/uniform/?skip=1&lang=cy>

Dangosodd adroddiad 'Pa mor deg yw Prydain?' fod rhai carfanau'n debygol o gael eu bwlio'n aml, er enghraifft:

- disgyblion anabl
- disgyblion hoyw, lesbiaid a thrawsrywiaid
- y rhai o gefndir economaidd gymdeithasol is<sup>11</sup>

Daeth i'r amlwg mewn astudiaethau eraill megis Williams a Robinson (2007) fod hoywon yn cael eu bwlio'n aml yn addysg Cymru, gan gynnwys bwlio o achos tueddfryd rhywiol y rhieni a'r cynhalwyr yn ogystal ag un y plentyn, boed ei wir dueddfryd neu un tybiedig. Yn ôl arolwg gynhaliodd mudiad Achub y Plant yn 2003 ar ran Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal y Cynulliad, mae llawer iawn o fwlio a rhagfarn yn erbyn plant sipsiwn.

### Ystyriaethau:

- **Gweithio yn ôl y canllawiau newydd am:**
  - **Bwlio plant ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig ac anabledau**
  - **Bwlio am resymau rhywiol a bwlio trawsrywiaid**
  - **Bwlio ar y we**
  - **Bwlio o achos tras, crefydd neu ddiwylliant**
  - **Bwlio hoywon**
- **Profiadau ac anghenion gwahanol bechgyn a merched o ran bwlio.**
- **Deall anghenion crefyddol**

## Cyfranogiad y disgyblion

Mae'n hanfodol gadael i blant gymryd rhan mewn prosesau er cydraddoldeb yn yr ysgolion fel y gallan nhw ddweud eu dweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae hynny'n berthnasol i blant a phobl ifanc i gyd. Mae Cymal 12 Cytundeb y Cenhedloedd Unedig am Hawliau Plant yn dweud bod hawl gan blant a phobl ifanc i fynegi eu barn a mynnu i'w barn gael ei hystyried mewn unrhyw fater sy'n effeithio arnyn nhw. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu hynny yn ffurfiol ar gyfer ei gwaith i gyd ac mae ysgolion Cymru yn gweithredu yn ôl yr ymrwymiad hwnnw bob dydd.

Mae amryw ffyrdd o ofalu bod plant a phobl ifanc yn cael dweud eu dweud yn yr ysgol gan gynnwys cyngor yr ysgol, ymgynghori, cylchoedd cynrychioli a chymorth oddi wrth gyfoedion.

Mae rhagor o wybodaeth am wella a datblygu cyfranogiad ar:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/wellbeing/pupilvoice/?skip=1&lang=cy>

## Cyrhaeddiad

Mae'r ysgolion a'r awdurdodau lleol yn ceisio cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y merched a'r bechgyn ers peth amser bellach. Cyhoeddodd Estyn adroddiad ac argymhellion am y pwnc yn 2008:

<http://www.estyn.gov.uk/uploads/publications/6462.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/raisingschoolstandards/estynremit/estynreports/closingthegap/?skip=1&lang=cy>

Mae gorchwylion ar gyfer y pwnc hwn yn rhan o Fframwaith Effeithiolrwydd yr Ysgolion. Mae bylchau yn y cyrhaeddiad yn achosi pryder ledled Cymru, fodd bynnag, ac mae amrywiaeth o dystiolaeth yn awgrymu bod bylchau ynglŷn â chefnidir cenedlig, anabledau ac anghenion addysgol arbennig yn berthnasol i'r drafodaeth mewn rhai amgylchiadau, hefyd.

Mae'r data cynharaf y gallwn ni eu cymharu yng Nghymru yn ymwneud â'r cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1 (plant 7 oed). Mae rhai carfanau'n fwy tebygol nag eraill o gyrraedd lefel 2 yn yr asesiadau. Er enghraifft, mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o'i chyrraedd, mae disgyblion croenwyn a Tsieinaidd yn fwy tebygol o'i chyrraedd na disgyblion croenddu neu Asiaidd ac mae'r rhai ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig (46%) yn llai tebygol o lawer o wneud hynny na'r disgyblion nad ydyn nhw ar gofrestr yr anghenion (81%).<sup>12</sup>

Mae adroddiad 'Pa mor deg yw Cymru?' yn dweud bod angen cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad gwahanol garfanau economaidd gymdeithasol gan gynnwys bechgyn, disgyblion croenddu, y rhai o Wlad Bangla a Phacistan a phlant anabl. Mae'n nodi mai'r bwlch ehangaf yw'r un rhwng cyrhaeddiad y rhai mae gyda nhw hawl i gael prydau'n rhad ac am ddim yn yr ysgol a'r rhai sydd heb yr hawl honno. Mae bwlch llai ond sylweddol rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn. Mae'r bwlch ychydig yn ehangach yng Nghymru na'r un yn Lloegr ac yn ehangach o lawer na'r bwlch yn yr Alban.

Graddau TGAU A*-C yn y pynciau craidd: 2008/09	
<b>Prydau am ddim</b>	20%
<b>Talu am brydau</b>	52%
<b>Merched</b>	51%
<b>Bechgyn</b>	43%

Mae'r adroddiad yn cydnabod hefyd fod cyrhaeddiad y rhai sydd ar gofrestr yr anghenion addysgol arbennig yn gymharol wael ac yn nodi nad yw wedi gwella dros y blynyddoedd er bod cyrhaeddiad y carfanau eraill yn well erbyn hyn. Yn ôl ymchwil ehangach am ddeilliannau i bobl anabl, mae'u canlyniadau TGAU yn waeth na rhai pobl eraill ac mae pobl anabl bron i ddwywaith yn debygol o fod heb gymwysterau.<sup>13</sup> Nid pob disgybl anabl sydd â datganiad o ran anghenion addysgol arbennig, ond mae peth gorymylu rhwng y ddwy garfan.

### Canlyniadau arholiadau CA4 yng Nghymru yn ôl cefndir cenedlig, 2009

Anghenion addysgol arbennig	% y rhai 15 oed ddechrau'r flwyddyn academaidd a enillodd:	
	Lefel 2	TGAU A*-C yn y pynciau craidd
Pob disgybl ar gofrestr AAA	22.6	12.2
Datganiad	13.4	7.4
Ysgol 'Action Plus'	21.9	12.8
Ysgol 'Action'	26.5	13.6

Mae dadansoddiad o'r cyrhaeddiad fesul tras yn dangos nad yw'n ymwneud â disgyblion croenddu'n cyflawni llai na'r rhai croenwyn. Mewn gwirionedd, mae cyrhaeddiad disgyblion 16 oed o gefndir Tsieinaidd ac Indiaidd yn arbennig o dda. Mae cyrhaeddiad y rhai sy'n tarddu o Bacistan, Gwlad Bangla a chefnidir croenddu yn tueddu i fod yn wael, fodd bynnag. Dywedodd Llywodraeth Cymru yn 2008 fod cyrhaeddiad plant sipsiwn a phobl grwydrol o Wyddelod yn tueddu i fod yn wael, hefyd.<sup>14</sup> Mae ymchwil Croke a Crowley (2007) yn ategu hynny trwy ddweud bod cyrhaeddiad bechgyn croenddu, plant sipsiwn/pobl grwydrol a'r rhai o gefndir croenddu ac Asiaidd yn waeth na'r cyfartaledd.<sup>15</sup>

### Canlyniadau arholiadau CA4 yng Nghymru yn ôl cefndir cenedlig, 2009

Cefndir cenedlig	% y rhai 15 oed ddechrau'r flwyddyn academaidd a enillodd:	
	Lefel 2	Lefel 2
<b>Croenwyn</b>	58.3	44.1
<b>Croenwyn - Prydain</b>	58.3	44.1
<b>Cefndir croenwyn arall</b>	59.8	46.5
<b>Tras gymysg</b>	58.4	42.2
<b>Croenwyn/du: Mor y Caribî</b>	51.7	33.6
<b>Croenwyn/du: Affrica</b>	48.6	38.6
<b>Croenwyn/Asiad</b>	68.5	53.6
<b>Tras gymysg arall</b>	60.2	43.3
<b>Asia</b>	57.2	43.5
<b>India</b>	63.9	50.6
<b>Pacistan</b>	54.2	42.8
<b>Gwlad Bangla</b>	52.9	37.3
<b>Cefndir Asiaidd arall</b>	66.3	51.2
<b>Croenddu</b>	44.3	30.9
<b>Mor y Caribî</b>	46.3	31.3
<b>Affrica</b>	42.8	30
<b>Cefndir croenddu arall</b>	49.3	34.8
<b>Tsieinead/Tsieinead o'r DG</b>	80	68.2
<b>Carfan genhedlig arall</b>	62.9	48.4
<b>Anhysbys</b>	57.6	45.9
<b>Cyfanswm y disgyblion</b>	66.1	49.5

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad WISERD o Anghydraddoldeb Economaidd yng Nghymru 2011.

Er nad oes llawer o ddata am brofiadau'r rhai o wahanol grefyddau, mae barn bod cyrhaeddiad plant Moslemaidd yn waeth na chyrhaeddiad plant eraill a bod anghenion penodol amryw grefyddau heb eu diwallu, yn aml.<sup>16</sup>

## Ystyriaethau:

- **Dros y blynyddoedd diwethaf hyn, mae ffigurau gwladol yn dangos bod cyrhaeddiad bechgyn, disgyblion o Bacistan a Gwlad Bangla, disgyblion anabl, y rhai ac arnyn nhw anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n perthyn i garfanau economaidd gymdeithasol is yn gymharol wael.**

## Ystrydebau

Ym 1993, tynnodd Comisiwn y Cyfleoedd Cyfartal sylw at yr ystrydebau cryf o ran pa gyrsiau a gyrfaedd y dylai merched a bechgyn eu dewis. Yn 2007, dangosodd Chaney ac eraill fod y broblem yn parhau gan ddadlau 'ei bod yn amlycach yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DG'. (Chaney ac eraill, 2007: 171). Mae Estyn yn dal i gydnabod materion o'r fath gan ddweud bod 'dewisiadau ystrydebol ym mhob cyfnod ynglŷn â phynciau y bydd merched a bechgyn am eu hastudio' a bod 'dyheadau isel' ymhlith merched ynglŷn â pha gyrfaedd y dylen nhw eu dilyn er bod eu cyrhaeddiad a'u cyflawniad yn uchel.

Mae tystiolaeth Butler (2005) yn awgrymu bod 'gwahanu' yn ôl rhyw yn dechrau yn gynnar ac yn parhau i effeithio ar 'ddyheadau' a 'disgwyliadau plant amdany'n nhw eu hunain ac am bobl eraill'. Yn ôl Renold ac Allan (2006), mae tyb na all neb fod yn hardd ac yn ddeallus ac mae hynny wedi gorfodi merched i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng rhagori'n academaidd a bod yn boblogaidd:

'I fod yn boblogaidd, mae angen bychanu cyflawniad er bod rhai merched yn dewis dathlu eu llwyddiant yn hytrach na hel ffrindiau.'

## Ystyriaethau:

- **Effaith ystrydebau ar ddewisiadau o ran cyrsiau a gyrfaedd.**
- **Effaith ystrydebau ar ddyheadau.**

## 14-19 a'r tu hwnt

Mae adroddiad 'Pa mor deg yw Cymru?' yn dweud ei bod yn hanfodol gostwng nifer y bobl ifanc sydd heb astudio, gweithio na chael eu hyfforddi boed ym maes addysg neu o ran pobl ifanc yn garfan sydd i'w diogelu (o ran oedran). Mae Cynllun Pre-VENT 14-19 yn y deheubarth yn enghraifft o'r gwaith da sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol ynglŷn â pham mae pobl ifanc yn ei chael yn anodd dysgu a pham y bydden nhw'n gadael yr ysgol heb gymwysterau na medrau. Mae'r syniad na ddylai pobl fod heb addysg, waith na hyfforddiant yn rhan allweddol o waith Llwybrau Dysgu 14 -19. Mae rhagor o wybodaeth yma:

[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/learning\\_path\\_ways\\_14\\_19?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/learning_path_ways_14_19?skip=1&lang=cy)

Yn ôl arolwg gynhaliodd Gyrfaoedd Cymru yn 2007, mae bechgyn yn fwy tebygol o fod heb addysg, gwaith a hyfforddiant na merched.<sup>17</sup> Mae merched yn parhau i ragori ar fechgyn yn arholiadau'r Safon Uwch hefyd, ac maen nhw'n fwy tebygol o fod mewn addysg amser llawn rhwng 16 a 18 oed.<sup>18</sup>

Fe ddangosodd yr arolwg hwnnw hefyd fod 'llai o ddisgyblion o dras leiafrifol na disgyblion croenwyn ym Mlwyddyn 12 (16/17 oed, fel arfer) yn mynd ymlaen i addysg a hyfforddiant ffurfiol a'i bod yn hysbys bod mwy ohonyn nhw heb waith, addysg a hyfforddiant (4.9% o'i chymharu â 3.2% o'r rhai croenwyn).<sup>19</sup>

### Ystyriaethau:

- **Mae llai o fechgyn a disgyblion o dras leiafrifol ym Mlwyddyn 12 ac mae'u cyrhaeddiad yn is, hefyd.**
- **Mae bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod heb unrhyw fath o addysg, hyfforddiant neu swydd.**

## Addysg i oedolion

Mae cyfleoedd i ddysgwyr o oedolion gymryd rhan yn y penderfyniadau am y ddarpariaeth yn agwedd allweddol mae'r awdurdodau lleol, y rhwydweithiau dysgu cymunedol a'r darparwyr wedi'i datblygu dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Mae ymgynghori rheolaidd, gwerthuso cyrsiau ac adborth yn nodweddion o'r gwaith hwnnw. Mae'r adroddiad gyhoeddodd Estyn yn 2009, 'Gwranddo ar y gymuned: Pa mor dda yw darparwyr ynghylch cael gwybod beth yw anghenion dysgu oedolion yn eu cymunedau lleol?' yn ystyried y dulliau ac yn argymhell rhai gwelliannau: <http://www.estyn.gov.uk/uploads/publications/6536.pdf>

Mae ymchwil wedi tynnu sylw at rai materion cydraddoldeb mae modd eu trafod gyda'r dysgwyr a'r darpar ddysgwyr i gytuno ar atebion ystyrlon. Yn wahanol i rannau eraill o'r DG, mae tipyn o wahaniaeth rhwng nifer y dynion a'r merched sy'n dysgu yng Nghymru. Mae mwy o ferched na dynion yn ymwneud ag addysg i oedolion. Serch hynny, bydd merched – yn arbennig y rhai o dras leiafrifol – yn dweud ei bod yn anos iddyn nhw fanteisio ar addysg o'r fath am fod rhaid gofalu am blant neu bobl eraill.<sup>20</sup> Mae hynny'n awgrymu y gallai rhagor fyth o ferched gymryd rhan ac yn dweud bod angen inni ddeall rhagor am y rhesymau pam nad oes cynifer o ddynion.

Mae llai o bobl hŷn yn cymryd rhan ac mae pobl anabl ledled Prydain 50% yn llai tebygol o gymryd rhan na'r rhai sydd heb anabledau.

Canran y rhai sy'n ymwneud â dysgu i oedolion yng Nghymru yn ôl rhyw	
<b>Merched</b>	40%
<b>Dynion</b>	37%

Canran y rhai sy'n ymwneud â dysgu i oedolion yng Nghymru yn ôl oedran	
<b>18-24 oed</b>	65%
<b>25-44 oed</b>	50%
<b>45-64 oed</b>	35%
<b>dros 60 oed</b>	10%

Dysgu i oedolion: pobl anabl a'r rhai sydd heb anableddau (Prydain)	
<b>Anabl</b>	23%
<b>Heb anableddau</b>	46%

Mae'r canlyniadau cyntaf i Gymru yn awgrymu hefyd fod pobl sydd o dras leiafrifol yn fwy tebygol o fanteisio ar ddysgu i oedolion na phobl o gefndir croenwyn, ac eithrio pobl sy'n tarddu o Bacistan neu Wlad Bangla – y rhai lleiaf tebygol o gymryd rhan.<sup>21</sup>

### Ystyriaethau:

- **Mae gofalu am blant yn faen tramgwydd o hyd o ran rhwystro merched rhag manteisio ar gyrsiau dysgu i oedolion.**
- **Mae pobl o dras leiafrifol yn fwy tebygol o ddweud na allan nhw fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu achos bod rhaid gofalu am blant.**
- **Mae pobl anabl yn llai tebygol o ddilyn cyrsiau dysgu i oedolion, hefyd.**



## **Atodiad 1: Rhagor o ddarllen**

*UK Triennial Review 'How Fair is Britain?'* Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010)

<http://www.equalityhumanrights.com/publications/>

*Adolygiad Teirblwydd Cymru, 'Pa mor deg yw Cymru?'* Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (2011)

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/>

Victoria Winckler Gol., *Materion cydraddoldeb yng Nghymru: Adolygiad ymchwil Sefydliad Bevan ar ran Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru* (2010)

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/>

*Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus: Cau'r Bylchau* Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (2009)

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/>

*'Pwy sy'n rheoli Cymru?'* Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (2011)

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/>

*Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru* WISERD ar ran Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru (2011)

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/>

*Arolwg o Fwlio yn Ysgolion Cymru* Llywodraeth Cymru (2009)

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/researchandevaluation/research/allwalesurvey/;jsessionid=Lyz2TDWZJQjJFWvZjDYBVLX6TyLDkc8XYM6TTdvDmZ20JZzgryd5!-1206084875?lang=en>

*Working for a Fairer Future* Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (2009)

<http://www.teachers.org.uk/node/11199>

Vikki Butler, *Young people's experiences of, and solutions to, identity related bullying: Adroddiad ymchwil* Barnardos (2009)

[http://www.barnardos.org.uk/resources/research\\_and\\_publications/young-peoples-experiences-of-and-solutions-to-identity-related-bullying-research-report/publication-view.jsp?pid=PUB-1430](http://www.barnardos.org.uk/resources/research_and_publications/young-peoples-experiences-of-and-solutions-to-identity-related-bullying-research-report/publication-view.jsp?pid=PUB-1430)

## Atodiad 2

### Oedran

Comisiynydd Plant Cymru

<http://www.complantcymru.org.uk/cy/>

Barnardos Cymru

[http://www.barnardos.org.uk/cym/what\\_we\\_do/who\\_we\\_are/in\\_your\\_region/wales.htm](http://www.barnardos.org.uk/cym/what_we_do/who_we_are/in_your_region/wales.htm)

NSPCC Cymru

[http://www.nspcc.org.uk/Inform/policyandpublicaffairs/wales/wales\\_wda\\_48589.html](http://www.nspcc.org.uk/Inform/policyandpublicaffairs/wales/wales_wda_48589.html)

Comisiynydd y Bobl Hŷn

<http://www.olderpeoplewales.com/en/splash.aspx>

Age Cymru

<http://www.ageuk.org.uk/cymru/>

### Anabledau

Anabledd Cymru

<http://www.disabilitywales.org/>

The Access Association

<http://www.accessassociation.co.uk/>

### Tueddfryd rhywiol a newid rhyw

LGBT Excellence Centre

<http://lgbtec.org.uk/>

Stonewall Cymru

<http://www.stonewallcymru.org.uk/cymru/>

### Tras – gan gynnwys tarddiad cenhedlig, lliw neu genedl

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

<http://nwren.org/>

South east Wales race Equality Council

<http://www.sewrec.org.uk/partners.html>

Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd

<http://www.valrec.org/>

### Crefydd neu gred

Rhyng-ffydd Wales

<http://www.interfaithwales.org/>

## **Rhyw**

Coalition on men and Boys

[www.comab.org.uk](http://www.comab.org.uk)

Cymorth i Feched Cymru

<http://www.welshwomensaid.org/index.html?diablo.lang=cym>

Chwarae teg

<http://cymraeg.chwaraeteg.com/>

## Llyfryddiaeth

---

- <sup>1</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008h). *Absenoldeb yn ysgolion cynradd Cymru 2007*. Caerdydd: LICC; Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007s) 'Absenoldeb yn ysgolion uwchradd Cymru, 2006/07', *Cyfres Gyntaf yr Ystadegau*, SDR 163/2007(R); Llywodraeth Cynulliad Cymru Government (2007t) 'Gwaharddiadau yn ysgolion Cymru, 2005/06', *Cyfres Gyntaf yr Ystadegau*, SDR 32/2007. Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009),
- <sup>2</sup> Estyn (2005b) Addysg dysgwyr o sipsiwn a phobl grwydrol: Arolwg o'r modd mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn darparu ar gyfer anghenion dysgwyr o sipsiwn a phobl grwydrol. Caerdydd: Estyn.
- <sup>3</sup> Jones, G., Powell, R. a Reakes, A. (2006) *Research into the education of Gypsy Traveller children in Wales*. Ar gael ar: <http://www.nfer.ac.uk/research-areas/pims-data/summaries/research-into-the-education-of-gypsy-traveller-children-in-wales.cfm#conclusions> Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009),
- <sup>4</sup> Mae priodi a phartneriaethau sifil yn nodweddion i'w diogelu hefyd ond dim ond â'r gofyn i roi ystyriaeth briodol i angen cael gwared ar anffafrio mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud.
- <sup>5</sup> EHRC (2010) How Fair is Britain?, tudalen 311
- <sup>6</sup> *Anita Naoko Pilgrim, Addysg* yn Victoria Winckler Gol., Materion cydraddoldeb yng Nghymru: Adolygiad ymchwil (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009)
- <sup>7</sup> Estyn (2005c) Arolwg yn ôl thema o unedau atgyfeirio disgyblion a darpariaeth gyffelyb. Caerdydd: Estyn.
- <sup>8</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) 'Pa mor deg yw Prydain?', tudalen 311
- <sup>9</sup> ibid
- <sup>10</sup> Arolwg o Fwlio yn Ysgolion Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009)
- <sup>11</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) 'Pa mor deg yw Prydain?', tudalen 322
- <sup>12</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyrhaeddiad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, (2005-2008)
- <sup>13</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003a) *Golwg Ystadegol ar Anableddau ac Afiechyd Hirdymor yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009, dyfyniad)
- <sup>14</sup> (Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008x) 'Cyrhaeddiad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, 2005-2007', *Bwletin Ystadegol* 16/2008. Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009)
- <sup>15</sup> Croke, R. a Crowley, A. (eds) (2007) *Stop, Look, Listen: the road to realising children's rights in Wales*. (Adroddiad amgen.) Caerdydd: Achub y Plant Cymru. Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009)
- <sup>16</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011) 'Pa mor deg yw Cymru?', tudalen
- <sup>17</sup> Gyrfaoedd Cymru (2007) *Pen y daith i ddisgyblion o ysgolion Cymru 2007*. Ar gael ar: [https://www.careerswales.com/documents/2008229\\_Destinations\\_eng\\_web%20\(2\).pdf](https://www.careerswales.com/documents/2008229_Destinations_eng_web%20(2).pdf) Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009),
- <sup>18</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007j) 'Golwg Ystadegol ar Ddymion a Merched yng Nghymru', *Bwletin Ystadegol* 38/2007. Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009)
- <sup>19</sup> Gyrfaoedd Cymru (2007) *Pen y daith i ddisgyblion o ysgolion Cymru 2007*. Ar gael ar: [https://www.careerswales.com/documents/2008229\\_Destinations\\_eng\\_web%20\(2\).pdf](https://www.careerswales.com/documents/2008229_Destinations_eng_web%20(2).pdf) Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009)
- <sup>20</sup> Sgiliau Dyfodol Cymru (2004) *Sgiliau Dyfodol Cymru 2003: Cyfleoedd Cyfartal*.  
Ar gael ar: <http://www.learningobservatory.com/topical-analyses/> ac Aldridge, F., Furlong, C. a Nettleship, S. (2007). *Cymru: Symud Tuag at y Wlad sy'n Dysgu. Arolwg ar Gyfranogiad Oedolion yn Addysg Barhaus Cymru 2007*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru/Sefydliad

---

Cenedlaethol yr Addysg Barhaus i Oedolion. Wedi'i ddyfynnu yn (EHRC:11/Sefydliad Bevan 2009),

<sup>21</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010) 'Pa mor deg yw Prydain?', tudalen 322